# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 26 Mehefin 2014** |
| Amser: | **09.15 - 10.58** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_26_06_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews AC**<br>**Rebecca Evans AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Mark Drakeford AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**<br>**Grant Duncan, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Carys Thomas, NISCHR** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 7

2.1 Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan Aelodau.
2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r hyn a ganlyn:

- nodyn ar ddarparu triniaeth a gwasanaethau i gleifion sydd â thiwmorau niwroendocrin ar lefel Cymru-gyfan fel enghraifft o wasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer canserau llai cyffredin;
- cadarnhad bod y dechnoleg yn ei lle i gefnogi'r gwaith o adrodd yn amserol ar yr adolygiadau o'r achosion o ganser yr ysgyfaint a chanser gastroberfeddol yr ymdrinnir â hwy gan bob meddyg teulu yng Nghymru yn 2014 ar lefel meddyg teulu, lefel clwstwr meddygon teulu a'r lefel genedlaethol;
- nodyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y trafodaethau tairochrog ar reoliadau drafft yr Undeb Ewropeaidd ar ddiogelu data, a'r effaith bosibl ar ymchwil canser yng Nghymru;
- y papur a gyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwiliad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin i Sgrinio Iechyd Cenedlaethol;
- nodyn i egluro a oes adnoddau a chapasiti ar gael ar gyfer sgrinio coluddion yng Nghymru.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd yr aelodau y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan dystion a oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mai 2014 mewn perthynas â'r ymchwiliad i wasanaethau orthodontig yng Nghymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ystyried dull y Comisiwn o ymchwilio i gyffuriau penfeddwol cyfreithlon

5.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod y dull gweithredu ar gyfer ei ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon") a chytunodd ar y dull a drafodwyd.